# Gwerthusiad Prosiect
# Ysgol Gwirfoddolwyr a Gofalwyr
# Crynodeb Gweithredol

Academi Iechyd a Gofal Powys

Powys Health and Care Academy

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

WcVA
CGGC

Mehefin 2022

# Crynodeb Gweithredol

## 1. Y Prosiect

Cafodd y prosiect ei gyllido gan Lywodraeth Cymru drwy CGGC, i adeiladu ar waith a gafodd ei wneud yn 2021 yn llunio'r adroddiad Dyfodol Gwirfoddoli ym Mhowys, y Strategaeth Wirfoddoli gysylltiedig, a'r cynnig ar gyfer cwmpas a swyddogaeth yr Ysgol Gwirfoddolwyr a Gofalwyr newydd-sefydledig sy'n eistedd o fewn Academi Iechyd a Gofal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Bydd yr ysgol yn cynorthwyo gwirfoddolwyr a gofalwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy addysg, hyfforddiant a chymorth datblygu, nid yn unig i unigolion ond hefyd i fudiadau sy'n cynorthwyo neu'n cynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr.

Byddai'r prosiect yn:-

- ❖ Datblygu'r rhaglen a'r deunyddiau a fydd yn ffurfio'r ddewislen cymorth a ddarperir gan yr ysgol neu y cyfeirir ato drwy'r ysgol.
- ❖ Datblygu matrics sgiliau sy'n amlinellu'r sgiliau a'r anghenion datblygu y bydd eu hangen ar wirfoddolwyr a gofalwyr, heddiw ac yn y dyfodol, i gefnogi'r model gofal newydd.

Mae cylch gwaith yr adroddiad gwerthuso hwn yn gyfyngedig i ymchwilio i'r datblygiadau hyn a nodi cyfleoedd datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, caiff effeithiau a buddion sylw lle'n bosibl.

O'r adborth gan nifer o ffynonellau, mae'n amlwg nad yw'r term 'ysgol' yn denu gwirfoddolwyr na gofalwyr a dylid ailedrych ar yr enw, ond caiff ei ddefnyddio drwy gydol y ddogfen at ddibenion yr adroddiad hwn.

## 2. Rhaglen Hyfforddi – Dewislen Cymorth

Anfonwyd arolwg o anghenion hyfforddi at amrediad o wirfoddolwyr a mudiadau, i ganfod y gofynion hyfforddi presennol, ochr yn ochr ag adroddiad gan Credu a oedd yn nodi anghenion gofalwyr. Cafodd y themâu canlynol eu nodi:-

- Sgiliau, rhinweddau a gwerthoedd craidd
- Sgiliau digidol
- Sgiliau trosglwyddadwy
- Sgiliau sy'n benodol i rolau Iechyd a Gofal

Cynigir Dewislen Cymorth ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar y themâu hyn, gan ddefnyddio ymarferiad cwmpasu gan y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn nodi'r ddarpariaeth a'r adnoddau sydd ar gael ym Mhowys, y gellir eu darparu, neu eu cyfeirio atynt gan yr ysgol.

Gwnaeth yr ymarferiad hefyd nodi bylchau mewn darpariaeth a chafodd y deunyddiau newydd a ddatblygwyd eu seilio ar y dadansoddiad bylchau hwn a'r adborth gan dri grŵp ffocws a sesiynau un-i-un a gynhaliwyd i ehangu ar yr wybodaeth o'r arolwg o anghenion hyfforddi.

Er bod y sgiliau penodol yn canolbwyntio ar rolau Iechyd a Gofal, mae gweddill y rhaglen arfaethedig hefyd yn rhoi sylw i anghenion a dymuniadau ehangach gwirfoddolwyr a gofalwyr.

Mae angen cyfuniad o ddulliau i ddarparu hyfforddiant a chymorth, gyda chymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Gellid datrys y broblem hon i raddau drwy ddefnyddio'r dechnoleg hybrid newydd sy'n cael ei datblygu ym Mhowys ar hyn o bryd. Bydd yr elfen ar-lein yn cael ei chyrchu drwy borth dysgu'r ysgol, sy'n gorfod bod ynghlwm wrth bresenoldeb ar-lein cysylltiedig.

## 3. Matrics Sgiliau

Roedd datblygu'r matricsau sgiliau hyn, y rhai 'cyntaf yng Nghymru', yn broses gydweithredol a oedd yn datblygu'n gyson i ddatblygu offer a ddylai wneud y canlynol i unigolion:-

- Nodi a rhoi gwerth ar sgiliau
- Nodi rolau posibl
- Nodi anghenion hyfforddi
- Helpu i ddatblygu portffolio personol
- Cefnogi datblygiad gyrfaol

I fudiadau, dylai'r offer:-

- Gefnogi datblygiad disgrifiadau rôl i wirfoddolwyr
- Nodi gofynion rôl dymunol a hanfodol
- Nodi anghenion hyfforddi

Cytunwyd y byddai'n allweddol bod y prosiect hwn yn datblygu cynnwys y matricsau a dylid mynd i'r afael â'u fformat terfynol, a fyddai'n siŵr o gynnwys datblygu ap neu feddalwedd arall, mewn datblygiadau i ddod.

Cafodd pedwar matrics ar wahân eu datblygu i wirfoddolwyr a gofalwyr gan ddefnyddio 'google forms', a oedd yn adlewyrchu'r themâu a nodwyd yn y ddewislen cymorth, sef sgiliau, rhinweddau a gwerthoedd craidd, sgiliau digidol, sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau penodol ar gyfer rolau Iechyd a Gofal.

Mae'r ffurflenni yn gofyn am lefelau hyder neu wybodaeth, yn dibynnu ar y cyd-destun, a hefyd sut y cyrhaeddwyd y lefelau hyn, er gwybodaeth i'r rhaglen hyfforddi. Er mwyn eu gwneud yn fwy

diddorol i unigolion, cawsant eu hail-frandio fel adeiladwyr proffil personol.

Cafodd pumed matrics ei ddatblygu i fudiadau, a oedd yn canolbwyntio ar y gofynion ar gyfer rolau Iechyd a Gofal, er y gellid addasu'r cysyniad ar gyfer rolau eraill. Eto, mae adrannau ar sgiliau, rhinweddau a gwerthoedd craidd, sgiliau digidol, sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau penodol i rolau Iechyd a Gofal, a'r tro hwn, gofynnir a yw'r sgiliau ac ati naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol mewn rôl a lefel yr hyder neu wybodaeth sydd ei hangen, er mwyn datblygu disgrifiadau swydd.

Er bod yr offer yn bodloni'r mwyafrif o'r gofynion ar eu fformat presennol, nid ydynt yn cysylltu unigolion â rolau'n uniongyrchol. Gellid rhoi sylw i hyn mewn datblygiadau i ddod, trwy greu offeryn ar-lein rhyngweithiol ac ategyn i alluogi'r proffiliau a'r disgrifiadau rôl i ryngwynebu â gwefan Gwirfoddoli Cymru. Fodd bynnag, gellir eu defnyddio nawr gan Ganolfan Gwirfoddoli Powys a staff eraill sy'n gweithio gydag unigolion i wneud y cysylltiadau hyn.

## 4. Casgliadau

Mae'r prosiect wedi cyflawni'r rhaglen hyfforddi, neu'r ddewislen cymorth, a'r cynnwys ar gyfer offeryn matrics sgiliau, a fydd yn galluogi'r ysgol gwirfoddolwyr a gofalwyr i symud ymlaen i gam nesaf y datblygiad.

Mae hefyd wedi cyfrannu at ganlyniadau tymor byr partneriaeth gryfach sy'n cefnogi gwirfoddoli, mwy o gydnabyddiaeth i lwybrau gwirfoddoli a datblygiad cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd uchel.

Er mwyn dangos effaith hirdymor y gwaith hwn, mae cynnig wedi'i wneud i ddatblygu model trionglog i gofnodi profiadau gwirfoddolwyr, cleifion neu gleientiaid a gweithwyr proffesiynol.

## 5. Cyfleoedd datblygu yn y dyfodol

Mae anghenion a chyfleoedd datblygu ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi drwy gydol yr adroddiad. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

**Trosfwaol**

- Ailedrych ar enw'r 'ysgol'.
- Datblygu presenoldeb ar-lein diddorol ac arloesol

**Datblygu'r rhaglen a'r ddewislen cymorth**

- Cyflwyno a darparu'r cynnig hyfforddiant ar fformat hygyrch
- Sicrhau bod digon o adnoddau staffio i ailwampio, diweddaru a hyrwyddo cynnig yr ysgol yn gyson i wirfoddolwyr a gofalwyr
- Ystyried man byw addasadwy â ffôn symudol

**Matricsau sgiliau**

- Defnyddio’r matricsau sgiliau fel offer ar-lein
- Ystyried cynnwys model dewis ymddygiad
- Datblygu ategyn i ryngwynebu â gwefan Gwirfoddoli Cymru

O’r holl ddatblygiadau ar gyfer y dyfodol a restrir uchod, yr un pwysicaf o bell ffordd yw darparu staff sy’n gallu sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod yn ffres ac wedi’i diweddaru’n gyson a’i bod yn cael ei hybu’n dda ar gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill, fel y gall y prosiect cyffrous hwn gyrraedd ei botensial llawn.

**Mehefin 2022**

**Os hoffech dderbyn copi o’r adroddiad llawn, gofynnwch am un drwy anfon e-bost at:**
Powys.HealthCareandSocialCareAcademy@wales.nhs.uk